

# Datganiad Llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Beth yw'r datganiad Llesiant?

Mae gan bawb yr hawl i lesiant ac mae gan bawb gyfrifoldeb am ei lesiant ei hun, ond mae angen help ychwanegol ar rai pobl i gyflawni hynny. Mae'r datganiad yn disgrifio beth y mae Llesiant yn ei olygu ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae diffinio Llesiant yn golygu sicrhau dull gweithredu sy'n seiliedig ar weithio mewn partneriaeth â phobl, rhoi llais cryfach i bobl a mwy o reolaeth dros eu bywydau, a grymuso pobl i gyflawni eu lesiant eu hunain gyda'r lefel briodol o ofal a chymorth.

## Beth gaiff ei gynnwys yn y datganiad?

Mae'r datganiad yn disgrifio'r canlyniadau Llesiant cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r datganiad yn adeiladu ar y diffiniad o lesiant yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n disgrifio canlyniadau Llesiant cenedlaethol sy'n ymwneud â phob rhan o fywyd unigolyn.

Bydd pobl yn dymuno cyflawni canlyniadau personol sy'n bwysig iddynt. Drwy gydweithio â gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid, gall pobl ddisgwyl gyflawni canlyniadau personol sy'n adlewyrchu'r canlyniadau Llesiant cenedlaethol.

## Sut caiff y datganiad ei ddefnyddio?

Cafodd y datganiad Llesiant ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24ain Awst 2016. Caiff ei ddefnyddio i amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau Llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Caiff ei ddefnyddio i feithrin dealltwriaeth gyffredin o lesiant ymhlith yr holl asiantaethau, er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r un canlyniadau pwysig ar gyfer unigolion.

Caiff Llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth ei fonitro bob blwyddyn drwy'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol.

## I gael rhagor o wybodaeth, ewch i

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

[www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted](http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted)

Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth: [www.wales.gov.uk/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy)

## I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

[swbimplementation@cymru.gsi.gov.uk](mailto:swbimplementation@cymru.gsi.gov.uk) 029 2082 5833



<b>Beth mae llesiant yn ei olygu</b>	<b>Canlyniadau llesiant cenedlaethol</b>	<b>Beth fyddwn yn ei fesur</b>
Sicrhau hawliau a hawlogaethau Hefyd yn achos oedolion: Rheolaeth ar fywyd pob dydd	Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy llesiant Gallaf gael gafael ar yr wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen amaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy llesiant Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried Rwy'n siarad dros of fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hymny dros of	Ansawdd gofal a chymorth Ansawdd bywyd A yw pobl yn cael eu trin â pharch A yw pobl yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth gywir pan fydd ei hangen arnynt A oes gan bobl reolaeth ar eu bywyd o ddydd i ddydd A yw pobl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth
Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosïynol Hefyd yn achos plant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosïynol, cymdeithasol ac ymddygiadol	Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl	A yw pobl yn dweud eu bod yn teimlo'n iach yn gorfforol a meddylïol Bodlonrwydd â bywyd A yw pobl yn byw eu bywydau mewn ffordd iach (gan gynnwys a yw brechiadau a gwiriadau deintyddol plant yn gyfredol, disgwyliad oes, pwysau geni isel) Datblygiad plant Pobl hŷn sy'n torri eu clun
Amdiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod	Rwy'n ddiogel ac yn cael fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon	Faint o niwed ac esgeulustod sy'n digwydd A yw pobl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel
Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden	Rwy'n gallu dysgu a datblygu i'm llawn botensial Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi	Cyrhaeddiad addysgol plant Cyfraddau mynychu'r ysgol ymysg plant Deilliannau a chymwysterau dysgwyr sy'n oedolion A yw pobl yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt
Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol	Rwy'n perthyn Rwy'n cyfrannu at berthnasoedd diogel ac iach ac yn eu mwynhau	Ymdeimlad o gymuned Unigrwydd
Cyfraniad a wneir at y gymdeithas	Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas	A yw pobl yn meddwl bod y pethau maent yn eu gwneud yn eu bywydau yn werth chweil Cymryd rhan mewn cymdeithas
Llesiant cymdeithasol ac economaidd Hefyd yn achos oedolion: Cymryd rhan mewn gwaith	Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddeuwisaf Nid wyf yn byw mewn tloedi Caf gymorth i weithio Caf yr help sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf	Pobl sy'n gweithio Y bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai lleiaf diffreintiedig a'r rhai mwyaf diffreintiedig Pobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant Amddifadedd materol
Addasrwydd llety preswyl	Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu orau i sicrhau fy llesiant	A yw tai yn diwallu anghenion pobl Aelwydydd digartref sydd â phlant dibynnol neu fenywod beichiog Ansawdd tai cymdeithasol